Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

## TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – CYF. Yswiriant Indemniad Cadeiryddion Wedi Ymgymhwyso yn y Gyfraith ac Aelodau Panel Annibynnol

**Amseru:** Cyn gynted â phosibl

**Teitl:** Yswiriant Indemniad Cadeiryddion Wedi Ymgymhwyso yn y Gyfraith ac Aelodau Panel Annibynnol

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes:** Ansawdd Gwasanaeth

**Cefndir:**
O dan Reoliadau Ymddygiad yr Heddlu 2012 (fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) (Diwygiad) 2015), gwnaed newidiadau i ymddygiad a chyfansoddiad gwrandawiadau camymddwyn yr heddlu ar gyfer swyddogion heddlu o reng Uwch-arolygydd neu is. Diben y newidiadau yw cyflwyno mwy o dryloywder ac annibyniaeth i wrandawiadau camymddwyn yr heddlu. Maen nhw'n cynnwys cynnal gwrandawiadau yn gyhoeddus (a gyflwynwyd ym mis Mai 2015), ac ers mis Ionawr 2016, unigolyn wedi ymgymhwyso yn y gyfraith, a benodir gan Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu (y Comisiynwyr), yn eu cadeirio. Daeth newidiadau pellach mewn deddfwriaeth i rym o 1 Chwefror 2020 o dan Ddeddf Plismona a Throsedd 2017, lle y disgwylir i gadeiryddion wedi ymgymhwyso yn y gyfraith reoli gwrandawiadau camymddwyn yr heddlu o'r cychwyn cyntaf.

<u>Proses camymddwyn – Swyddogion Heddlu Nad Ydynt Yn Swyddogion Uwch (Uwch-arolygydd ac is)</u>

Mae hyder cyhoeddus yn yr heddlu'n hollbwysig. I'w sicrhau, disgwylir i swyddogion heddlu arddangos lefel uchel o safonau ymddygiad proffesiynol a phersonol. Gallai honiad o gamymddwyn yn erbyn swyddog heddlu neu gwnstabl gwirfoddol gael ei ystyried yn briodol ar gyfer ymchwiliad gan Adran Safonau Proffesiynol yr Heddlu neu Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu. Cyfeirir at ganfyddiadau ymchwiliad ac fe'u hasesir yn ffurfiol gan y Dirprwy Brif Gwnstabl fel yr 'awdurdod priodol'. Os yw'r Dirprwy Brif Gwnstabl yn ystyried bod yr honiad yn un o gamymddwyn difrifol, bydd y mater yn cael ei gyfeirio at wrandawiad camymddwyn yr heddlu ar gyfer penderfyniad, ac os yw'r honiad yn cael ei brofi, gweithredu cosbau.

<u>Gwrandawiadau Camymddwyn yn Nyfed-Powys, Gwent, Gogledd Cymru a De Cymru</u>

Cynhelir gwrandawiadau yn ardaloedd heddlu Dyfed-Powys, Gwent, Gogledd Cymru a De Cymru. Cynhelir gwrandawiadau gan Banel Camymddwyn yr Heddlu (y panel), sy'n cynnwys un cadeirydd wedi ymgymhwyso yn y gyfraith, un swyddog heddlu o reng Uwch-arolygydd neu uwch, ac aelod annibynnol. Cyfrifoldeb Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yw cynnal rhestr o gadeiryddion wedi ymgymhwyso yn y gyfraith ac aelodau annibynnol a'u penodi. Cyfrifoldeb Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yw eu penodi drwy ddefnyddio 'rheol y rhes cabiau'. Cyfrifoldeb yr awdurdod priodol yw penodi aelod o'r panel sy'n swyddog heddlu.

<u>Cosbau</u>

Mae'r Coleg Plismona wedi cynhyrchu 'Canllawiau ar ganlyniadau yng ngweithdrefnau camymddwyn yr heddlu.' Corff proffesiynol yw'r Coleg Plismona ar gyfer yr heddlu yng Nghymru a Lloegr. Mae ei

**Cefndir (Parhad):**

gyfrifoldebau'n cynnwys nifer o rolau datblygu a hyfforddi. Bwriad y canllawiau yw cynorthwyo'r panel a benodwyd i gynnal gweithdrefnau camymddwyn.

Deddfwriaeth

Rheoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) 2012 (diwygiwyd gan Reoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) (Diwygiad) 2014 a 2015)
Rheoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) 2019 (deddfwyd o 1 Chwefror 2020)
Deddf Plismona a Throsedd 2017

Ceir hyd i wybodaeth ynglŷn â dethol a phenodi aelodau ar gyfer gwrandawiadau camymddwyn yr heddlu a thribiwnlysoedd apêl yr heddlu drwy ddilyn yr hyperddolen ganlynol: selection-of-misconduct-panels-and-police-appeals-tribunals-final-version-2.pdf (dyfedpowys-pcc.org.uk).

**Ystyriaethau Indemniad:**
Ar 30 Tachwedd 2020, hysbysodd Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu (CCHTh) bob Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu (SCHTh) am bryderon a godwyd mewn perthynas â'r geiriad indemniad y cytunwyd arno gyda Chadeiryddion Wedi Ymgymhwyso yn y Gyfraith yn 2018. O ganlyniad, gweithiodd CCHTh gyda Chymdeithas Prif Weithredwyr Comisiynwyr Heddlu a Throseddu (CPWCHTh), y Swyddfa Gartref a Chymdeithas Genedlaethol Cadeiryddion Wedi Ymgymhwyso yn y Gyfraith i ddatblygu math o eiriad indemniad dros dro cytûn mewn perthynas â Chadeiryddion Wedi Ymgymhwyso yn y Gyfraith ac Aelodau Panel Annibynnol.

Ar 28 Medi 2021, rhoddodd CPWCHTh ddiweddariad i bob SCHTh bod y Swyddfa Gartref wedi ystyried bod angen newid i ddeddfwriaeth sylfaenol, fodd bynnag, ni chyflwynir deddfwriaeth hyd nes y bydd yr achos apêl ar gyfer Prif Gwnstabl Heddlu Avon a Gwlad yr Haf yn erbyn Mr Nicholas Eckland: UKEAT/0123/20/JOJ (V) - GOV.UK (www.gov.uk) yn dod i ben.

Ysgrifennodd Cymdeithas Genedlaethol Cadeiryddion Wedi Ymgymhwyso yn y Gyfraith at bob Prif Weithredwr SCHTh ar 11 Hydref 2021, yn gofyn am gadarnhad bod gan ein SCHTh allu ariannol yn awr ac yn y dyfodol rhagweladwy i indemnio Cadeiryddion Wedi Ymgymhwyso yn y Gyfraith a benodir i gadeirio gweithdrefnau camymddwyn yn ein hardal heddlu mewn perthynas ag unrhyw atebolrwydd parhaol neu sylweddol a allai fod ganddi mewn gweithdrefnau sifil sy'n codi o ganlyniad i ryddhau ei dyletswyddau statudol, ac y bydd yn gwneud hynny.

Ar 25 Tachwedd 2021, cynhaliodd Cymdeithas Genedlaethol Cadeiryddion Wedi Ymgymhwyso yn y Gyfraith ei chyfarfod cyffredinol blynyddol, a phleidleisiwyd "*y dylai aelodau wrthod derbyn penodiadau pellach i gadeirio gweithdrefnau camymddwyn yr heddlu hyd nes bydd y Swyddfa Gartref yn rhoi cadarnhad ysgrifenedig i Gymdeithas Genedlaethol Cadeiryddion Wedi Ymgymhwyso yn y Gyfraith y bydd yn sicrhau, o fewn cyfnod o 9 mis, y gweithredir deddfwriaeth sylfaenol sy'n rhoi indemniad i Gadeiryddion Wedi Ymgymhwyso yn y Gyfraith, Aelodau Panel Annibynnol ac Aelodau Paneli Heddlu rhag achos cyfreithiol mewn perthynas â phob mater sy'n deillio o'u gweithdrefnau camymddwyn, ac mewn cysylltiad â nhw'n eu cynnal, o dan Reoliadau (Ymddygiad) yr Heddlu 2020 ac unrhyw ddeddfwriaethau dilynol, gan gynnwys gweithdrefnau a gynhaliwyd ar 25 Tachwedd 2021 neu cyn hynny.*"

Cynghorodd y Swyddfa Gartref y byddai canlyniad achos presennol Prif Gwnstabl Heddlu Avon a Gwlad yr Haf yn erbyn Mr Nicholas Eckland: UKEAT/0123/20/JOJ (V) - GOV.UK (www.gov.uk), ar yr adeg honno o flaen y Llys Apêl, yn penderfynu pa un ai a ddylid darparu deddfwriaeth i'w gwarchod ai peidio.

**Ystyriaethau Indemniad (Parhad):**
Os yw'r Swyddfa Gartref yn rhoi cadarnhad ysgrifenedig o'r fath i Gymdeithas Genedlaethol Cadeiryddion Wedi Ymgymhwyso yn y Gyfraith, ar yr amod bod deddfwriaeth sylfaenol yn cael ei phasio, mae Cymdeithas Genedlaethol Cadeiryddion Wedi Ymgymhwyso yn y Gyfraith wedi cynghori Cadeiryddion Wedi Ymgymhwyso yn y gyfraith i ddim ond derbyn penodiadau pellach i gadeirio gweithdrefnau camymddwyn yr heddlu os yw Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (neu gyfwerth) yn cytuno i roi indemniad iddynt.

Ysgrifennodd Comisiynydd Heddlu a Throseddu (CHTh) Dyfed-Powys at y Swyddfa Gartref yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd Plismona yng Nghymru ar 21 Rhagfyr 2021 ynglŷn â'r sefyllfa bresennol sy'n ymwneud â darpariaeth indemniad gan gyrff plismona lleol i Gadeiryddion Wedi Ymgymhwyso yn y Gyfraith ac Aelodau Panel Annibynnol Paneli Gwrandawiadau Camymddwyn yr Heddlu.

**Y Cynllun Heddlu a Throseddu:**
Mae Comisiynwyr Heddlu a Throseddu'n gweithredu fel llais y cyhoedd ar faterion plismona a throsedd. Maen nhw'n gyfrifol am osod y cyfeiriad strategol ar gyfer plismona o fewn eu hardaloedd heddlu unigol.

Cyfrifoldeb Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yw cynnal rhestr o gadeiryddion wedi ymgymhwyso yn y gyfraith ac aelodau panel annibynnol a'u penodi. Cyfrifoldeb Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yw eu penodi gan ddefnyddio 'rheol y rhes cabiau'.

Mae hyn yn ffurfio rhan o flaenoriaethau'r Comisiynydd, h.y. cefnogi dioddefwyr ac atal niwed.

**Argymhelliad:**
Mae'n rhaid i'r CHTh ystyried y budd cyhoeddus mewn cynnal gwrandawiadau camymddwyn yr heddlu cyn gynted â phosibl, ac effaith hyn ar hyder y cyhoedd. Mae angen i wrandawiadau camymddwyn yr heddlu barhau, er budd swyddogion, achwynwyr ac aelodau o'r cyhoedd. Gyda hyn mewn cof, mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu'n awgrymu bod Cadeiryddion Wedi Ymgymhwyso yn y Gyfraith ac Aelodau Panel Annibynnol yn ardal Dyfed-Powys yn parhau i dderbyn y geiriad indemniad interim y cytunwyd arno, fel y rhannodd CCHTh ar 30 Tachwedd 2020.

Mae SCHTh Dyfed-Powys wedi ystyried cysylltu â Chadeiryddion Wedi Ymgymhwyso yn y Gyfraith sydd ar restr Cymru gyfan i achub y blaen ar benderfyniad; fodd bynnag, daethpwyd i'r casgliad ei bod hi'n well cysylltu â Chadeiryddion Wedi Ymgymhwyso yn y Gyfraith unwaith y byddwn yn cyrraedd yr amser i benodi. Os nad oes Cadeiryddion Wedi Ymgymhwyso yn y Gyfraith ar gael i gadeirio, bydd SCHTh Dyfed-Powys yn rhoi gwybod i'r Swyddfa Gartref.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n yn cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** **Dyddiad:** 3rd March 2022

